CGDBC: Ffurflen Archebu Unigol

Defnyddiwch y ffurflen hon i archebu llefydd ar y ddau gwrs ac wrth archebu fel grŵp
Defnyddiwch un ffurflen y person a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU

Gwybodaeth Bersonol Cyfranogwyr

Enw: Mr/Mrs/Miss/Ms:

Cyfeiriad:

Cod post:

Ffôn: Yn y dydd: Gyda'r nos: Symudol:

E-bost:

Oedran: Dyddiad Geni: Swydd:

SYLWER: Rhaid llenwi ffurflen caniatâd Rhieni/Gwarcheidwad ar gyfer unrhyw un dan 18 oed. Mae'r rhain ar gael yn y llyfryn ac yn y Ganolfan.

Gwybodaeth Feddygol Cyfranogwyr

Oes gennych chi anabledd corfforol? OES/NAC OES *Os oes, rhowch fanylion:*

Oes gennych chi unrhyw gyflwr meddygol y dylem wybod amdano? OES/NAC OES *Os oes, rhowch fanylion:*

Gwybodaeth am y Cwrs

Y Cwrs Penodol:

Dyddiad(au):

Profiad Blaenorol: *Nodwch eich lefel perfformiad a rhestru'ch gwobrau yma:*

Tâl

Ffi'r Cwrs: £ Ffordd o Dalu: Siec* Arian Parod Cerdyn credyd/debyd

SYLWER: Dylid gwneud sieciau yn daladwy i 'Cyngor Sir Caerdydd'.

Rwy'n eich awdurdodi i roi'r tâl ar fy nghyfrif CERDYN CREDYD/DEBYD â'r holl symiau dyledus, neu a fydd yn ddyledus mewn perthynas â'r archeb hon

Math o Gerdyn: MasterCard Visa Eurocard Switch/Maestro Delta

Rhif y Cerdyn: __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __

Dyddiad dod i ben: / Yn ddilys o: / Rhif Dyroddi: Rhif Diogelwch: (3 digid olaf ar y stribed diogelwch)

Datganiad

Hoffwn drefnu lle ar y cwrs (cyrsiau) a nodir uchod ar gyfer fy hunan/ _____ *(enw'r plentyn os ydyw dan 18 oed)* a chadarnhau fod y wybodaeth a ddarperir yn gywir.

Rwyf dros 18 oed, rwyf wedi darllen y daflen Gwybodaeth Ansawdd Dwˆr (lle bo angen) ac wedi darllen a deall yr Amodau a Thelerau Archebu (2010) ac yn cytuno fod y trefniant hwn yn unol â'r rheiny.

Efallai bydd angen i ni gymryd lluniau o'r cyfranogwyr ar gyfer pwrpasau cyhoeddusrwydd, gan gynnwys i'w rhoi ar ein gwefan.
Os nad ydych yn cytuno i ni ddefnyddio lluniau sy'n eich cynnwys chi/eich plentyn, ticiwch y bocs.

LLOFNOD: DYDDIAD:

PRINTIWCH EICH ENW: Cyfranogydd/Rhiant/Gwarcheidwad *(dileer fel bo'n briodol)*

CYFEIRIAD:

Sut y bu i chi glywed am y Ganolfan? *(Ticiwch)*
Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar y llyfryn a'n hysbysebu'n gyffredinol

Rhyngrwyd Hysbyseb Pa gyhoeddiad?

Digwyddiad Arddangosfa Pa arddangosfa?

Argymhellion Wedi bod o'r blaen

AT DDIBEN Y SWYDDFA'N UNIG
Dyddiad y Derbyniwyd y Ffurflen: *Cyfanswm:* £
Dyddiad yr Anfonwyd y Cadarnhad: *Wedi Talu Blaendal:* £

CGDBC: Amodau a Thelerau Archebu 2012

CANOLFAN GWEITHGAREDDAU DŴR BAE CAERDYDD

(a reolir gan Gyngor Sir Caerdydd, a gyfeirir ato fel 'y Cyngor' o hyn ymlaen)

1. Archebu

1.1 Mae'r holl drefniadau archebu yn unol â'r amodau a thelerau hyn; a bydd y ffurflen archebu wedi'i llenwi a'i llofnodi ynghyd â'r amodau a thelerau hyn yn ffurfio'r cytundeb cyfan rhyngoch chi ('y Cwsmer' neu'r 'Cyfranogydd') neu'r person sy'n archebu ar eich rhan, a'r Cyngor.

1.2 Rhaid i ni dderbyn ffurflenni archebu a thaliad llawn cyn dechrau'r cwrs.

1.3 Gellir archebu dros dro, cyn belled â'n bod ni'n derbyn y ffurflen archebu cyflawn ynghyd â'r tâl cyn pen 7 diwrnod ar ôl archebu dros y ffôn.

1.4 Byddwn ni'n postio ein cadarnhad i ddweud ein bod wedi derbyn eich archeb cyn pen 7 diwrnod ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen archebu a thaliad. Ni fydd lle wedi'i archebu i chi nes y byddwn wedi cadarnhau hynny.

2. Tâl

2.1 Mae ffioedd yn daladwy yn llawn wrth archebu ar gyfer yr holl gyrsiau, ac eithrio ar gyfer grwpiau o 10 person neu fwy.

2.2 Ar gyfer grwpiau o 10 neu fwy o bobl, mae angen blaendal, na ellir ei ad-dalu, o 25% o'r cyfanswm ffi wrth archebu; ac mae angen talu balans y ffi o leiaf 3 wythnos cyn i'r cwrs ddechrau.

2.3 Gellir talu dros y ffôn, drwy'r post neu'n bersonol gan ddefnyddio Maestro, MasterCard, Visa, Siec, neu Arian Parod (Rhaid gwneud taliadau ag arian parod yn bersonol yng Nghanolfan Channel View).

2.4 Ar gyfer archebion a wneir gan sefydliadau, efallai bydd archeb swyddogol neu ddogfen ysgrifenedig arall y gallwn ei anfonebu, yn unol â chyfeirnodau credyd boddhaol, yn dderbyniol yn lle taliad llawn o flaen llaw. Atodwch orchymyn prynu â'r ffurflen archebu.

3. Canslo/trosglwyddiadau gan y Cyngor

3.1 Gwneir pob ymdrech i sicrhau y cynhelir y cyrsiau yn ôl yr amserlen. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i:

3.1.1 Ganslo cwrs ar unrhyw bryd pe na bai'r nifer yn cyrraedd y lleiafswm ymarferol;

3.1.2 Canslo neu gwtogi unrhyw gwrs ar unrhyw bryd oherwydd amodau anaddas, tywydd garw, neu unrhyw ffactorau eraill tu hwnt i'n rheolaeth; a neu

3.1.3 Canslo cwrs am unrhyw reswm arall gan roi rhybudd o ddim llai na 14 diwrnod i'r Cwsmer, a'r rhybudd i ddod i ben ar neu cyn dyddiad cychwyn y cwrs.

3.1.4 Cyn belled ag y byddwn yn gwneud pob ymdrech i gynnig cwrs arall addas a all gynnwys gweithgareddau neu ddyddiadau eraill, ond os na fyddwn yn gallu gwneud hynny neu nad os yw'r cwrs arall a gynigir yn dderbyniol i'r Cwsmer gwneir ad-daliad llawn ar gyfer cyrsiau a ganslwyd a gyfrifir pro rata lle bo'n berthnasol.

3.2 Ni fydd y Cyngor yn atebol am gyrsiau a gaiff eu canslo ac eithrio'r hyn a nodir yng nghymal 3.1 uchod.

4. Canslo/trosglwyddiadau gan y Cwsmer

4.1 Rhaid gwneud pob cais ar gyfer canslo/trosglwyddo yn ysgrifenedig, i'n swyddfa docynnau (derbynnir ffacs neu e-bost).

4.2 Ar ôl derbyn hysbysiad am gais i ganslo neu drosglwyddo:

4.2.1 Byddwn yn gwneud pob ymdrechion posibl i ddarparu ar gyfer eich cais;

4.2.2 Os gellir cynnig dyddiad neu weithgaredd arall o'r un gwerth sy'n dderbyniol gan y ddwy ochr yna gwneir trosglwyddiad heb unrhyw gost bellach;

4.2.3 Yn unol â chymal 4.5 isod, os na ellir dod o hyd i ddewis arall sy'n dderbyniol gan y ddwy ochr, yna rhoddir ad-daliad llawn cyhyd â'n bod ni'n derbyn y cais i drosglwyddo/canslo o leiaf 3 wythnos cyn dyddiad cychwyn y cwrs.

4.3 Ni ellir rhoi ad-daliad i unrhyw un sy'n canslo llai na 3 wythnos cyn dyddiad cychwyn y cwrs.

4.4 Byddwn yn eich ad-dalu ar ôl dyddiad cychwyn y cwrs yn unig.

4.5 Pe baech yn canslo ar gyfer grwpiau o 10 neu fwy byddwch yn colli'r blaendal 25%, ac os byddwch yn canslo llai na 3 wythnos cyn dyddiad cychwyn y cwrs, ni fyddwn yn gallu ad-dalu'r ffi archebu llawn.

5. Tystysgrifau

5.1 Nid yw cymryd rhan mewn cwrs yn golygu y rhoddir tystysgrif.

5.2 Bydd tystysgrifau'n cael eu rhoi os yw hyfforddwr y Ganolfan yn credu bod y Cwsmer yn dangos y gofynion priodol i basio.

5.3 Rydym yn cadw'r hawl i wrthod rhoi tystysgrif cyhyd â'n bod ni'n rhoi rhesymau dros y penderfyniad ynghyd â chynllun gweithredu yn nodi ein hyfforddiant/gwelliannau sy'n angenrheidiol cyn y gall y Cwsmer basio, a chyn y gallwn gyflwyno tystysgrif.

6. Yswiriant a cholli eiddo

6.1 Cyfrifoldeb y Cwsmer yw trefnu unrhyw yswiriant angenrheidiol, a all gynnwys ond heb gyfyngiad yswiriant yn gysylltiedig â chanslo, chwtogi, damweiniau personol, atebolrwydd personol, lladrata ac yswiriant dros weithgareddau risg arbenigol; a byddwn yn argymell yn gryf i chi sicrhau yr un peth.

6.2 Bydd y Cyngor yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled, ddifrod neu anaf o ganlyniad uniongyrchol i esgeulustod ar ran y Cyngor, ei swyddogion neu asiantau yn unig.

6.3 Rhaid i chi ein hysbysu o eiddo a golloch o fewn pythefnos, gan y byddwn yn cael gwared ar unrhyw eitemau ar ôl y cyfnod hwn.

7. Defnyddio eich cwch/bad eich hun

7.1 Rhaid i gwsmeriaid sy'n defnyddio eu bad eu hunain sicrhau fod ganddynt yswiriant priodol. Dylid darparu copi o'r polisi yswiriant ynghyd â thystiolaeth o bremiymau wrth archebu.

7.2 Nid yw'r Cyngor yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golledion, hawliadau, difrodau neu dreuliau mewn cysylltiad â defnyddio cyfleusterau'r Ganolfan, oni bai eu bod o ganlyniad uniongyrchol i esgeulustod y Cyngor, ei swyddogion neu asiantau.

8. Ffitrwydd Corfforol/Gallu Nofio

8.1 Mae nifer o'r cyrsiau a gynigir yn gorfforol iawn a gallant gynnwys plygu, codi, neidio, cwympo, ymestyn a rhywfaint o gydsymud; ac wrth archebu rydych yn datgan fod gennych chi, neu'r person yr ydych yn archebu ar ei ran, lefel digonol o ffitrwydd ar gyfer y gweithgareddau cysylltiedig. Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'ch meddyg i geisio cyngor ynglŷn â ddylech chi gymryd rhan.

8.2 Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan mewn cwrs dŵr allu nofio 50 metr mewn dillad ysgafn.

9. Diogelwch

9.1 Diogelwch yw'r peth pwysicaf â holl gyrsiau'r Ganolfan a rhaid i'r holl Gyfranogwyr a'u rhieni a gwarcheidwaid gydnabod bod chwaraeon dŵr a gweithgareddau antur yn beryglus o ran natur ac yn derbyn y risgiau sydd ynghlwm â chyfranogi ynddynt.

9.2 Wrth ddarparu system waith ddiogel ac i reoli risgiau cysylltiedig:

9.2.1 Byddwn yn cyflogi staff cymwys o fewn canllawiau'r corff llywodraethu yn unig;

9.2.2 Rydym yn darparu ystod o offer amddiffyn a diogelwch personol o ansawdd er lles diogelwch a chysur Cyfranogwyr;

9.2.3 Rydym yn darparu offer priodol ar gyfer eich cwrs;

9.2.4 Rydym yn addysgu i argymhellion a chanllawiau'r corff llywodraethu lleol;

9.2.5 Mae gennym systemau rheoli a diogelwch cadarn sydd wedi'u harchwilio gan gyrff cymeradwy megis y Gwasanaeth Trwyddedu Gweithgareddau Antur (AALS), y Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA), Undeb Canŵa Prydain (BCU) a Chymdeithas Canŵa Cymru (WCA); ac

9.2.6 Rydym yn cadw'r hawl i addasu neu ganslo gweithgaredd os ydym yn teimlo bod risgiau nad ellir eu rheoli.

9.3 Rhaid i'r holl Gyfranogwyr gydymffurfio'n llawn ac yn brydlon bob amser â'r holl reoliadau a chyfarwyddiadau diogelwch a gyflwynir gan y Ganolfan; ei staff a/neu ei hyfforddwyr; ac ni chaniateir i Gyfranogwyr wneud unrhyw beth (neu beidio gwneud unrhyw beth) a all achosi difrod neu golled i eiddo neu gyfleusterau'r Ganolfan neu Gyfranogwyr eraill neu achosi niwsans, diflastod, aflonyddwch, anhwylustod neu anaf i unrhyw berson arall ar yr eiddo. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i derfynu arhosiad/defnydd unrhyw berson(au) o gyfleusterau'r Ganolfan os ydyw'n credu eu bod yn torri amod 9.3, ac efallai bydd gofyn iddynt adael y Ganolfan ar unwaith. Ni roddir unrhyw ad-daliadau yn yr achos hwn, ac ni fydd y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw dreuliau, hawliadau neu gostau o ganlyniad i derfyniad felly.

9.4 Rhaid tynnu modrwyau, clustlysau ac eitemau eraill o emwaith neu roi tâp drostynt cyn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd neu gwrs yn y Ganolfan.

10. Datganiadau meddygol neu ddietegol

10.1 Os oes gennych gyflwr neu salwch meddygol, gan gynnwys ond heb gyfyngiad i feichiogrwydd a chyflwr y galon, rhaid i chi ddatgelu hyn ar eich ffurflen archebu; a cheisio cyngor gan eich meddyg cyn archebu.

10.2 Rhaid i chi hefyd nodi ar y ffurflen archebu os oes gennych unrhyw anabledd, gofynion arbennig neu anghenion dietegol y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt.

11. Cyfranogwyr dan 18

11.1 Bydd angen i bob person dan 18 oed gyflwyno ffurflen caniatâd rhieni/gwarcheidwaid cyn cael cymryd rhan mewn cwrs. Mae'r ffurflen ganiatâd ofynnol ar gael yn ein llyfryn, ac o'n swyddfa docynnau; a rhaid dychwelyd ffurflen ganiatâd wedi'i llenwi a'i harwyddo i'r Ganolfan o leiaf 3 wythnos cyn dyddiad cychwyn y cwrs.

11.2 Ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw un dan 18 oed nes amser cychwyn y cwrs; a rhaid i oedolyn eu casglu'n brydlon ar amser gorffen y cwrs.

12. Camgymeriadau ac Esgeulustod

12.1 Tra gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb gwybodaeth cyhoeddusrwydd y Cyngor, nid yw'r Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriadau, anghywirdeb neu esgeulustod ynddynt, ac mae'n cadw'r hawl i addasu prisiau, amseroedd neu ddyddiadau cyrsiau ar unrhyw adeg. Edrychwch ar yr holl gyfleusterau a phrisiau cyn archebu.

12.2 Cewch eich hysbysu am unrhyw newidiadau perthnasol pan fydd eich archeb yn cael ei brosesu a chewch y cyfle i ganslo eich archeb heb gosb os dymunwch.

13. Diogelu Data/Preifatrwydd

13.1 Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei thrin yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

13.2 Efallai byddwn yn cymryd lluniau o Gyfranogwyr ar gyfer pwrpasau cyhoeddusrwydd, gan gynnwys i'w rhoi ar ein gwefan, ac wrth archebu rydych yn rhoi eich caniatâd i ni wneud hyn, oni bai eich bod yn marcio'r bocs ar y ffurflen archebu i nodi fel arall.